

10. Nadolig Bohemaidd

CYMERIADAU

- TAD – CARLOF
- SIÔN
- NAIN
- GWAS Y BRENIN
- MILWYR
- MAM
- AGNES
- BRENIN BOHEMIA
- CAETHWEISION – PETROF, EI FRAWD A'I CHWAER

GOLYGFA 1

Cartref CARLOF rai milltiroedd tu allan i Brâg. Y flwyddyn tua 930 OC. Mae NAIN ac AGNES yn ymyl y tân. Mae NAIN yn troi rhywbeth mewn pot ar y tân.

AGNES: Fyddan nhw adref cyn hir, Nain? Dwi'n llwgu ac mae'r cawl yna'n arogl'n dda.

NAIN: Gobeithio, wir. Fe fydd y gwasanaeth yn hirach nag arfer heno – mae llawer o bobl yn mynd i'r eglwys ar noswyl Nadolig.

AGNES: Fe fyddai wedi bod yn braf clywed y canu a gweld y goleuadau, ond mae'n gynhesach yma wrth y tân. Dwi ddim yn hoffi eira – mae fy nhraed yn mynd yn oer. Roedd hi'n iawn yn y coed gyda Dad heddiw – roedd y coed fel pont uwch fy mhen yn cadw'r llwybr yn glir.

NAIN: Fyddet ti ddim eisiau bod allan yn y goedwig heno, mae bleiddiaid o gwmpas.

AGNES: [*Mynd at y drws ac edrych allan*] Mae hi'n bwrw eira ac fe alla i glywed rhywun yn dod. Tydi o ddim yn swnio'n debyg i Dad ... mae lleisiau yna ... [*Mae'n symud at NAIN*] Mae gen i ofn!

[*Mae twrw tu allan – maen nhw'n cuddio. Gwaedd o'r tu allan*]

PETROF: Dyma'r drws! [*Mae tri chaethwas yn brysio i mewn – edrych o gwmpas a gweld powlenni a bara ar y bwrdd*] Neb yma – am lwc. Mae tân yma beth bynnag – a bwyd! Mmm – ogla' da! [*Maen nhw'n ysgwyd eu dillad, mae'r gaethferch yn gorffwys a'r brodyr yn codi cawl i'w powlenni a bwyta. Mae NAIN ac AGNES yn edrych. Mae NAIN yn flin*]

NAIN: Pwy ydach chi i ddod i mewn i'n tŷ ni fel hyn? Ein cawl Nadolig ni ydy hwn â chig ynddo fo. Pam ydach chi'n bwyta ein swper ni?

- BRAWD: Dyna un da! Pam mae unrhyw un yn bwyta? Am ein bod yn llwgu, dyna pam! Fe fyddech chithau'n llwgu hefyd petaech yn gaethweision i'n meist, y Tywysog Boleslas.
- CHWAER: Fe redon ni i ffwrdd. Roeddwn i'n siŵr o gael fy nghuro am dywallt bwcedaid o lefrith. Roedd fy mrawd mewn trafferth hefyd; fe ofynnodd o am diwnig i'w wisgo allan yn yr oerni. Mae gan ein meist glogyn ffwr. "Na chei, wir," meddai, "tydi caethweision ddim yn teimlo'r oerni fel tywysogion. Gweithia'n galetach, fe gynhesi di wedyn!"
- AGNES: Dyna be mae'n had yn ei ddeud wrtha i pan rydan ni'n hel coed.
- PETROF: Rydan ni'n mynd i Brâg i weld y brenin. Mae pawb yn gwybod ei fod ef yn gyfiawn a doeth ac mae ganddo ddigon o amser i siarad efo caethweision hyd yn oed.
- NAIN: Wyt ti mewn trwbl hefyd?
- PETROF: Ydw. Roeddwn i'n mynd i gael fy nghosbi am gymryd bara o'r sbarion y dylwn i fod wedi eu rhoi i'r moch.
- AGNES: Ac rŵan, rwyt ti'n cymryd fy swper i!
- PETROF: Does gen i ddim help am hynny! Mae angen nerth arnon ni i gerdded i'r ddinas. Mae'n rhaid i ni fynd yno heno i ni gael gweld y brenin wrth iddo fynd i gyfarch ei bobl ar ddydd Nadolig.
- AGNES: Be ddigwyddith pan ddywedwch chi wrtho?
- BRAWD: Rwy'n gobeithio y gwnaiff o faddau i ni ac anfon llythyr at ein meist i ddeud na ddylen ni gael ein cosbi.
- CHWAER: Efallai y cawn ein cadw ym Mhrâg i weithio iddo fo. Fe fyddwn i wrth fy modd.
- AGNES: Ddywedwch chi wrtho fo eich bod wedi bwyta'n swper ni?
- NAIN: Na, peidiwch â gneud hynny. Dywedwch wrtho fo ein bod yn garedig efo chi am ein bod yn Gristnogion fel y brenin. Rwy'n cofio geiriau Iesu. "Os rhoddwch gwpan o ddŵr i ddieithryn mae'n union fel petaech yn ei roi i mi." [Tro] Agnes, dwi'n siŵr y gallwn rannu bwyd efo eraill ar ei ben-blwydd o.
- AGNES: Mae'n siŵr ... ond fe hoffwn pe baset ti ond wedi cael dŵr! [Mae'r CAETHWEISION yn mynd at y drws]
- CHWAER: Diolch am y bwyd ac am y cynhesrwydd. Fe orffennwn ein taith yn gyflymach yn awr. [Edrych allan]
- PETROF: Mae'n dawl. Dewch, heibio'r ffynnon ac o dan y coed cyn belled ag y gallwn. Fe fydd yn saffach y ffordd honno.

- NAIN: *[Gan edrych i'w sosban a'i droi]* Mae ei hanner ar ôl. Fe ychwanega i ychydig o ddŵr ato i wneud mwy o botes. Sycha di'r platiau ac fe fyddwn ni'n barod.
- [Maen nhw'n ail osod y pethau fel nad oes olion ymwelwyr. Mae'r teulu'n dod yn ôl, MAM a SIÔN yn cael eu dilyn gan y TAD. Mae MAM yn ysgwyd yr eira oddi ar ei siôl]*
- MAM: Fe ddylech chi fod wedi clywed y canu. Wrth gwrs, fuon ni ddim i mewn yn yr eglwys, dim ond sefyll tu allan a gwranddo ar y canu. Roedd hi'n olau fel dydd gan fod pob un wedi dod â golau.
- SIÔN: Doeddwn i ddim wedi blino o gwbl wrth gerdded adref. Roeddwn i'n dal i gofio'r canu.
- TAD: Fe welson ni'r brenin. Cerddodd gyda'i weithwyr fel unrhyw bererin – mae'n ŵr gostyngedig a da. Rydw i'n falch i ni fyw i weld Nadolig arall. Rŵan, Mam, be am ychydig o swper? Rydan ni'n barod amdano.
- NAIN: Rhanna'r powlenni, Agnes, ac fe wnawn ein gorau i'w llenwi. *[Mae NAIN ac AGNES yn brysur wrth y lle tân]*
- MAM: Clywch – dwi'n clywed sŵn traed. *[Mae NAIN ac AGNES yn edrych ar ei gilydd. Daw curo ar y drws. Y TAD yn cymryd y ffon a mynd at y drws]*
- TAD: Pwy sydd yna?
- MILWR 1: Milwyr y Tywysog Boleslas.
- [Maen nhw'n rhuthro i mewn a sefyll wrth y drws]* Be ydach chi wedi'i wneud efo nhw?
- TAD: Efo pwy?
- MILWR 1: Mae tri chaethwas wedi'u gweld yn ffoi i'r cyfeiriad yma. Mae'n rhaid eu bod yn cuddio yn rhywle. *[Maen nhw'n dechrau chwilio amdany'n nhw]*
- TAD: Rydych chi wedi gneud camgymeriad.
- MILWR 2: Na, mae'n rhaid dod o hyd iddyn nhw. Fydd ein bywydau ddim gwerth byw os awn ni'n ôl hebddyn nhw. Maen nhw'n weithwyr da ac yn werthfawr iddo fo.
- TAD: Dydyn nhw ddim yma dwi'n deud wrthoch chi. Ar noson fel hon fe fyddan nhw'n cysgodi yn y goedwig.
- MILWR 2: Yna, mae'n rhaid i ni chwilio yn fanno. Fedran nhw ddim bod yn bell.
- [Allan. Y TAD yn bolltio'r drws]*
- TAD: Y tro yma, fe gawn ni ein swper.

MAM: Gadewch i ni fwyta be sydd gynnon ni a diolch i Dduw am ei ddaioni. Rydan ni'n dyfalu pam mae ein cawl mor denau ac rydach chi'ch dwy yn ddistaw a llwyd. Mae noswyl Nadolig yn noson sanctaidd, amser o hedd a chyfiawnder. Felly, fe fyddwn yn hapus efo'n gilydd.

[*Llenni*]

GOLYGFA 2

Yn y palas ym Mhrâg – mae'n fwy o gastell nag o balas. Mae'r llenni yn ail agor. Mae'r BRENIN yn sefyll ac yn edrych – ei WAS tu ôl iddo. Mae'n synfyfrio.

BRENIN: Mae pob dydd yn ddathliad – noswyl Nadolig, dydd Nadolig a heddiw, dydd San Steffan. Yr oedd yn ddyn mawr, Steffan. “O Dad, maddau iddynt,” meddai pan oedden nhw'n taflu cerrig ato. Yr oedd fel Iesu, ei feistr. Tydw i ddim yn ddigon crefyddol. Rwyf i'n flin wrth y pendefigion pan fyddan nhw'n greulon ac anhrugarog, ond roedd Iesu yn flin yn y deml. Hoffwn petawn i wedi gweld ei lygaid yn fflachio fel y cymerodd y chwip yn ei law. Mae mor anodd caru pobl wrth gasáu eu drwg weithredoedd.

GWAS: [*Dod ymlaen*] Syr, dewch at y tân. Mae hi'n oer wrth y ffenest.

BRENIN: [*Gan edrych allan*] Mewn munud. Edrych ar draws y dyffryn yn ymyl y coed. Pwy ydy'r gŵr sy'n casglu prisiau a'r hogyn sy'n eu cario mewn bwndel ar ei gefn? Maen nhw'n edrych yn flinedig dros ben.

GWAS: Dwi'n meddwl mai Carlof a'i fab ydyn nhw. Mae'n byw i fyny'r bryn, dair milltir neu fwy o fan hyn.

BRENIN: A'i waith?

GWAS: Coedwigwr ydy o.

BRENIN: Yna, pam mae o'n casglu prisiau mor bell o'i gartref?

GWAS: Syr, nid coedwigwr sy'n llosgi boncyffion. Mae boncyffion ar gyfer boneddigion, a phriciau ar gyfer coedwigwyr.

BRENIN: Yna heno, fe gaiff fod mor gynnes â'r boneddigion. Fe awn ni â boncyffion iddyn nhw ... ac fe gariwn fwyd, cig, bara a gwin. Holwch faint sydd yn ei deulu a dywedwch wrth y gogyddes am ei baratoi ar unwaith!

GWAS: Ond ... dywedoch “fe awn ni â nhw”?

BRENIN: Do, wrth gwrs.

GWAS: Chewch chi ddim, syr. Fedrwch chi ddim dringo bryniau efo llwyth trwm fel gwas. Tydi hynny ddim yn iawn. Wnaiff neb agor giât y castell i chi.

BRENIN: Dyn wyf i fel unrhyw un arall a brenin hefyd. Fe af i â'r cysuron fy hun ac fe gei di ddod gyda mi.

GWAS: Os ydych chi'n deud ... ond mae'n bwrw eira eto ... fe fydd yn nos gyda hyn ... mae hi'n waith caled dringo ar draws y dyffryn ac i fyny'r bryn.

BRENIN: Paid â bod yn ofnus. Fe fyddaf yno i arwain y ffordd. Lle af i, fe gei di ddilyn gan roi dy droed yn ôl fy nhroed i. [*Wrtho'i hun*] Dyna sut rwy'n ceisio dilyn Iesu, fy meistr. [*Wrth y GWAS*] Dos i nôl y bwyd, fy nghlogyn i a'm hesgidiau. Fe agorwn y giât a dianc allan pan fydd neb yn edrych. Cwyd dy galon! Fe fydd yn antur.

GOLYGFA 3

Ychydig yn hwyrach ar yr un diwrnod yng nghartref CARLOF. Mae NAIN yn eistedd wrth y tân. Mae MAM yn sefyll wrth y drws gyda phlanced ar ei hysgwyddau. Mae SIÔN yn chwarae gyda phum carreg ar y llawr.

MAM: Rydach chi wedi gneud yn dda; fe ddylai'r priciau 'na bara am dri diwrnod o leiaf. Dewch i'r tŷ rŵan i orffwys. Wyt ti'n oer Siôn?

SIÔN: Na, Mam, mae cario tanwydd yn waith cynnes. Fe aethon ni'n eithaf pell.

TAD: [*Yn dod i mewn*] Tua dwy neu dair milltir rwy'n meddwl. Roedden ni ar y bryn sy'n edrych dros y ddinas yn ymyl yr hen graig fawr sy'n sefyll fel castell. Mae'n lle da i fynd. Maen nhw wedi bod yn torri coed pin ar gyfer boncyffion, felly mae digon o briciau o gwmpas. Fe ddylet ti fod wedi bod yno – prin y gallwn weld Siôn ar ôl i mi roi'r bwndel ar ei gefn! [*Daw AGNES i mewn gyda dŵr mewn sosban*]

AGNES: Dyma'r dŵr o fy ffynnon.

SIÔN: Nid ti sy piau hi!

AGNES: Ie, siŵr. Ffynnon Santes Agnes ydy ei henw ac Agnes ydy fy enw i.

SIÔN: Dwyt ti ddim yn santes.

AGNES: Mae hynny'n wir, ond fe allwn fod un diwrnod. Eto, dwi ddim yn meddwl yr hoffwn i fod yn santes, tydyn nhw ddim yn cael bywyd braf.

MAM: Roedd Agnes yn bur ac yn dda fel y dŵr ac efallai y gwnei dithau dyfu'n debyg iddi.

SIÔN: Fe gymrith hynny dipyn o amser!

NAIN: Peidiwch â ffraeo chi'ch dau, dewch i eistedd fan hyn ac fe ddyweda i stori wrthych.

- AGNES: Dywedwch stori wir wrthon ni am yr amser pan oeddech chi'n ifanc ac yn gweithio yn y castell i nain y brenin.
- NAIN: O, roedd hi'n ddynes fendigedig. Fe fyddai'n dod i siarad gyda ni ym mhob man. Ganddi hi y clywais gyntaf am Iesu ac fel y cafodd ei eni mewn stabl gan nad oedd lle yn y llety. Yn fuan ar ôl hynny, daeth gorchymyn i ladd pob babi bach o fachgen ond fe gafodd ei arbed. Cafodd Joseff wybod hynny gan angel ac fe adawodd Joseff a Mair yn ddiogel am yr Aifft.
- AGNES: Mae pobl o hyd yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth berygl. A oedd yr Aifft yn bell?
- NAIN: Mae'n siŵr y cymerodd ddyddiau iddyn nhw gyrraedd. Tydw i ddim wedi bod mor bell erioed a dwi'n amau a fu'r Frenhines Ludmilla chwaith.
- BRENIN: [*Tu mewn i'r drws*] Pwy sy'n siarad am fy nain, y Frenhines Ludmilla annwyl?
- NAIN: [*Ar ei gliniau ac amneidio ar y gweddill*] Y Brenin Wenseslas! Syr, bùm yn gweini arni am flynyddoedd. Rwy'n eich cofio chithau hefyd. Roedd hi'n eich caru'n fawr.
- BRENIN: Ac roeddwn i yn ei charu hi gan iddi hi fy nysgu i beth oedd bod yn Gristion. [*Edrych o gwmpas*] Peidiwch â phenlinio, codwch er mwyn i chi gael gweld be sydd gan fy ngwas a fi i chi. [*Mae'r GWAS yn rhoi'r bwyd ar y bwrdd*]
- GWAS: Dyma'r cig, y gwin, y bara a'r afalau o berllan y palas a hefyd [*mynd at y drws a thynnu'r sach i mewn*] – boncyffion pin i'ch tân.
- TAD: Ai breuddwydio ydw i? Dwi ddim yn deall. Pam ddylech chi ddod â'r holl bethau da yma i ni ... ydw i'n gweld pethau?
- BRENIN: Na, nid dychmygu ydach chi ac fe ddyweda i wrthoch chi pam y daethon ni â nhw. Ddoe, fe wnes i esgusodi caethweision a ddeudodd wrtha i am eich caredigrwydd yn y tŷ yma. Mae gen i fwy na digon at fy angen felly mae'n rhoi pleser o'r mwyaf i mi rannu efo chi. Mae Bohemia yn dioddef llawer oherwydd diffyg gwybodaeth a chreulondeb. Mae'n bleser i mi gael dod â llawenydd i ychydig o bobl y Nadolig hwn.
- [*Mae'r GWAS yn rhoi coed ar y tân*]
- TAD: Rydan ni'n ddiolchgar iawn.
- MAM: Sut allwn ni ddiolch i chi?
- BRENIN: Gallwch wneud rhywbeth drosaf. Wrth y ffynnon, fe ddaethon ni ar draws y caethweision ddaeth yma noswyl Nadolig. Maen nhw'n aros y tu allan. A gân nhw gysgodi yma dros nos cyn mynd am adref yfory?
- TAD: Wrth gwrs – galwa nhw i mewn Siôn. Wnawn nhw ddim bwyta swper heno, Agnes.
- [*Maen nhw'n dod i mewn ac yn cael eu dilyn gan y milwyr*]

PETROF: Fe glywson ni eich geiriau a diolch amdanyn nhw. Fydden ni ddim wedi gofyn ein hunain ond fyddwn ni ddim trafferth y tro yma. Yn fy llaw mae gen i lythyr i'r tywysog, felly gallwn fod yn dawel ein meddwl. Yfory, fe gawn ni deithio'n ddiogel gyda'r dynion yma i'n hamddiffyn. Maen nhw'n gwasanaethu'r un meistr, y Tywysog Boleslas.

[*Gan droi at y BRENIN*]

Diolch eto, syr, am adael iddyn nhw deithio efo ni.

BRENIN: Fe fyddaf yn ymweld â'm brawd cyn hir. Gallwch fod yn siŵr y byddaf yn holi drosoch ond fe gewch eich trin yn dda pan fydd yn darllen y llythyr.

NAIN: [*Wrth AGNES yn ei hymyl*]

O Dduw, doedden ni ddim yn gallu mynd i'r eglwys ar noswyl Nadolig am fod fy nghoesau'n rhy hen i'm cario a rhai fy wyres yn rhy ifanc. Gawn ni gyd-ganu i'n hatgoffa o eni ein gwaredwr? Mae'n siŵr nad ydy'r lle yma yn rhy isel i Grist a anwyd yn y stabl.

BRENIN: Does unlle rhy isel iddo a dim un person yn rhy ostyngedig. Un diwrnod, efallai ymhen mil o flynyddoedd, fe fydd dynion a merched yn deall fod ei gariad ar gyfer pawb ac yna cawn ddysgu byw gyda'n gilydd mewn heddwch. Fel y canwn, fe fydd y neges yn seinio ar draws y goedwig ac i'r blynyddoedd a ddaw – “Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.” [*Luc 2:14*]

CAROL: ‘O clywch ganu swynol gân’, *Clychau'r Nadolig*.

DIWEDD